



RHONDDA CYNON TAF

At: Rhieni/Cynhalwyr

Gofynnwch am:
Please Ask For:
Rhif Est:
Telephone N°:
Ffacs:
Fax:
E-bost:
E-Mail:
Cylchlythyr:
Circular:

Gaynor Davies
01443 744001

Fy Nghyf: GD/TM
My Ref:

Eich Cyf: Your Ref:

Dyddiad: 10 Medi 2020
Date:

Annwyl Riant/Gynhaliwr

Clybiau Brechwast yn ystod Tymor yr Hydref

Fel y gwyddoch chi, roedd ysgolion yn Rhondda Cynon Taf yn bwriadu ailsefydlu'r ddarpariaeth clybiau brechwast o ddydd Llun 14 Medi ymlaen. Yn anffodus, yn dilyn adolygiadau iechyd a diogelwch, does dim modd ailagor y ddarpariaeth clybiau brechwast yn ddiogel, yn sgil y nifer cynyddol ddiweddar o achosion o COVID-19 yn ein cymuned.

Ar ôl derbyn nifer uchel iawn o geisiadau am ddarpariaeth clybiau brechwast a chynnal asesiad o faint neuaddau ac ystafelloedd bwyta'r ysgolion, fydd hi ddim yn bosibl sicrhau y bydd plant yn aros yn eu grwpiau cyswllt wrth fynychu'r clwb brechwast. Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau nad yw'r ddarpariaeth addysg yn cael ei pheryglu gan y posibilrwydd y bydd angen i nifer fawr o blant hunanynysu am nad oes modd cadw at y grwpiau cyswllt wrth fynychu darpariaeth y clwb brechwast. Rydyn ni'n bwriadu ailagor y ddarpariaeth ar 28 Medi 2020 gyda chapasiti llawer llai. Bydd llyfeydd yn cael eu cynnig ar sail y cyntaf i'r felin, a chaiff ymgeiswyr aflwyddiannus wybod eu bod wedi methu â sicrhau lle erbyn 5pm ar 18 Medi 2020. Fydd ymgeiswyr llwyddiannus ddim yn cael gwybod eu bod wedi llwyddo i gael lle am fod llyfeydd yn cael eu dyrannu'n awtomatig.

Bydd proses ymgeisio arall yn cael ei chynnal ar gyfer Tymor y Gwanwyn. Caiff rhieni ragor o fanylion ar ddiwedd mis Tachwedd 2020 ynglŷn â sut i ymgeisio ar-lein.

Rydw i'n siŵr y byddwch chi'n deall bod diogelwch eich plentyn yn hollbwysig ac wedi bod yn ganolog wrth ddod i'r penderfyniad yma. Bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu'n barhaus a byddaf yn ysgrifennu atoch eto maes o law gyda diweddariad pellach.

Diolch ymlaen llaw am barhau i roi'ch cefnogaeth.

Yn gywir,

Gaynor Davies

Tŷ Trevithick
Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ
Abercynon, Mountain Ash, CF45 4UQ

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Gaynor Davies
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.